OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 116

## Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006

## RHAN 2

CYFLWYNO BWYDYDD ANIFEILIAID A'U CYFANSODDDIAD

**Rheoli bwydydd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethiadol penodol, a darpariaethau atodol o ran datganiadau statudol**

**19.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson roi mewn cylchrediad unrhyw fwyd anifeiliaid a fwriedir ar gyfer diben maethiadol penodol, oni bai—

(a) bod y diben maethiadol penodol o dan sylw wedi ei bennu yng ngholofn 1 o Bennod A o Atodlen 7;

(b) bod gan y bwyd anifeiliaid y nodweddion maethiadol hanfodol a bennir gyferbyn â'r diben maethiadol penodol hwnnw yng ngholofn 2 o'r Bennod honno;

(c) bod y bwyd anifeiliaid wedi ei fwriadu ar gyfer anifeiliaid a bennir gyferbyn â'r diben maethiadol penodol hwnnw yng ngholofn 3 o'r Bennod honno;

(ch) yr argymhellir defnyddio'r bwyd anifeiliaid am gyfnod o amser sydd o fewn yr amrediad a bennir gyferbyn â'r diben maethiadol penodol hwnnw yng ngholofn 5 o'r Bennod honno;

(d) y cydymffurfir â'r gofynion a bennir ym mharagraffau 1, 2 ac 8 o Bennod B o Atodlen 7 o ran y bwyd anifeiliaid; ac

(dd) fod cyfansoddiad y bwyd anifeiliaid yn gyfryw fel bod modd iddo ateb y diben maethiadol penodol y bwriedir ef ar ei gyfer.

(2) Bydd Atodlen 7 yn effeithiol fel a bennir yn Atodlen 3.